Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen
Nos Fawrth, 13eg o Fawrth, 2018 am 7:30 y.h

Yn Bresennol - Cynghorwyr – Sara Williams (SW) John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), Gwilym Williams (GW) ac Emlyn Hughes (EH).

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd**
   Croesawyd pawb gan Griffith Jones yr Is Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd**.**
2. **Ymddiheuriadau -** Lisbeth James, Olwen Roberts a Sianelen Pleming
3. **Datgan Diddordeb -** Neb
4. **Diweddariadau asedau –** Dim mater yn codi y mis yma.
5. **Cofnodion**

5.1 ***Cyflwyno a mabwysiadu***
Cynigodd JO fod cofnodion y 9fed o Ionawr, 2018 yn gywir. Eiliodd GW ac fe'u mabwysiadwyd.

5.2 ***Materion yn codi***

5.2.1 **Ffordd Gors Lwyd yn rhychu**
Adroddodd JO iddo fynychu cyfarfod safle. Ni all y Cyngor Sir symud ymlaen gydag unrhyw weithred i liniaru'r broblem heb wybod pwy yw perchennog y tir. Gan hynny maent am barhau gyda'u hymchwil i ddarganfod pwy yw'r perchennog.

5.2.2 **Dŵr yng ngwaelod lôn rhosydd**
Cynhaliwyd cyfarfod safle. Canfuwyd fod rhwystr yn y bibell mewn golwg. Nodwyd fod y Cyngor Sir am ddefnyddio chwystrellwr cryf i geisio clirio'r rhwystr. Yna byddant yn gwirio ei bod wedi clirio trwy ddefnyddio camera. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cyflawni ei rôl am y tro yn yr achos yma.

5.2.3 **Mynwent Pistyll -** Nodwyd nad yw'r gwaith o atgyweirio'r wedi'i orffen eto. Bydd angen adolygu'r yswiriant pan y bydd y gwaith wedi'i gwblhau. *Y Clerc i ofyn wrth WJ os yw wedi clywed gan 'Natural Retreats' ers iddynt dderbyn y llythyr a archebwyd yng nghyfarfod Chwefror.*

5.2.4 **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn -** *Y Clerc i barhau i ymchwilio archif y Cyngor Cymuned o ran hyd a lled eu cyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio.*

5.2.5 **Gor-yrru trwy Llithfaen -** Nododd y Clerc fod 'Go Safe' wedi cadarnhau fod canlyniadau'r arolwg cyflymder yn Llithfaen wedi cael eu derbyn ac wedi dangos cyflymder ar gyfartaledd o 32 m.y.a. a chyflymder hyd safle canraddol o 85nd am 37.4m.y.a. Mae'r safle felly wedi cwrdd â'r gofynion i gael ei ystyried yn safle o bryder cymunedol. Esboniodd fod PCSO Elizabeth Jones mewn cyswllt gyda GoSafe ynglyn a'r camau nesaf. Mae wedi addo gadael i'r Cyngor Cymuned wybod cyn gynted ac y bydd gwybodaeth pellach ar gael. *Y Clerc i ddilyn i fyny eto.*

5.2.6 **Cerrig Milltir Plwyf Pistyll –** *Y Clerc i fynd i'r Archifdy yng Nghaernarfon i ymchwilio pan y bydd amser yn caniatau.*

5.2.7 **Tir Comin -** *Y Clerc i barhau a'i ymchwil i ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yng nghyd destun y Tir Comin yn lleol.*

5.2.8 **Iechyd a Diogelwch –** Mewn llaw.

5.2.9 **Pont Bryn Celyn –** Nodwyd fod y Cyngor Sir yn delio âgwraidd y broblem ddŵr yn y safle yma.

5.2.10 **Cyswllt Band Llydan –** Adroddodd y Cyng AJ mai'r cynharaf y caiff 'Fibrefast' ei sefydlu ym Mhistyll ydyw yn ystod gwedd 2 sydd wedi'i hamserlennu i ddechrau ym Mehefin, 2018. Mae'r Cyng. AJ am gadw mewn cyswllt gyda BT i fonitro cynnydd.

6. **Canolfan Llithfaen**

6.1 Nododdd y Clerc fod y Cyngor Sir yn cadarnhau mai'r cymalau canlynol yn y brydles ddrafft sydd yn cadarnhau y gall y Cyngor Cymuned ddychwelyd y Ganolfan i ddwylo'r Cyngor Sir cyn i'r brydles gyrraedd 99 mlynedd:
'Cymal 1.36 - Dyddiad Terfynu
Dyddiad mewn cytundeb â chymal 3.26 a weithredir yn dilyn blwyddyn gyntaf y Les hwn.
Cymal 3.26 - Terfyniad gan y Tenant
Os yw'r Tenant yn dymuno pennu'r Les hwn ar y Dyddiad Terfynu, rhaid iddo roi rhybudd ysgrifenedig o ddim llai na 3 mis i'r Landlord fod y Cyfnod i ddod i ben ar y Dyddiad Terfynu ynghyd a cadarnhad ei fod wedi talu'r rhent ac wedi perfformio'i oblygiadau yn sylweddol hyd at y dyddiad hwnnw. Bydd yn ofynnol i'r Tenant roi meddiant gwag o'r Eiddo a gwneud yn siŵr fod pob isbrydles wedi dod i ben.
O ganlyniad, bydd y Cyfnod a goblygiadau'r Landlord a'r Tenant dan y Les hwn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw ond yn ddiragfarn i hawliau'r naill barti mewn perthynas ag unrhyw rent dyledus neu symiau eraill dyledus neu unrhyw doriad arall ar y Les hwn a fyddo'n digwydd cyn y Dyddiad Terfynu.
Mae gan y Cyngor Cymuned yr hawl i ddychwelyd y Ganolfan i ddwylo'r rhydd-ddeiliaid, ar ôl blwyddyn 1af y Brydles os rhoddir 3 mis o rybudd, yn unol â thelerau'r Brydles.'
Esboniodd y Clerc nad oedd yn ddigon o arbenigwr i gadarnhau hynny ei hunan a gofynodd am farn yr Aelodau a oedd yn bresennol. Cynnigiodd JO fod y cymalau yn bodloni gofynion y Cyngor Cymuned ac eiliodd GW. Cytunodd yr Aelodau eraill.
Cynigiodd GW fod y Cyngor Cymuned yn cysylltu gyda'u Cyfreithiwr annibynnol i ddweud wrtho am beidio gwneud mwy o waith ar y dasg o gadarnhau addasrwydd y cymalau 1.36 a 3.26. Eiliodd JO a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu*.

6.2 *Hawliau penodol mynediad a hawddfreintiau* - Nododd y Clerc i Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir Gadarnhau eu bod yn ymwybodol fod eu Hadran Eiddo wedi ysgrifennu at berchennog Tŷ'r Ysgol ddechrau Ionawr. Maent am gysylltu eto â'r Adran Eiddo ynglŷn â'r mater.

6.3 Esboniodd y Clerc fod yr Adran Gyfreithiol wedi nodi nad ydynt yn credu y byddai'r Cyngor Sir yn codi tâl am gopiau o Weithredoedd Cyn-gofrestru'r Ganolfan. *Gan hynny gofynwyd i'r Clerc archebu copïau*

6.4 Derbynwyd nodyn gan SP yn esbonio fod unigolyn lleol am geisio sicrhau fap sy'n dangos dwr a.y.y.b yn y Ganolfan.

7. **Sedd Wag –** Cyfredol.

8. **Ceisiadau Cynllunio –** Dim.

9. **Polisiau**

Adroddodd y Clerc fod cynrychiolydd Un Llais Cymru wedi awgrymu diwygiadau i bolisi iaith y Cyngor.
Trafodwyd yr awgrymiadau a phenderfynwyd cynnig newid y cymalau canlynol i fod fel a ganlyn:
2.1 Bydd y Cyngor yn trafod materion yn ei gyfarfodydd trwy gyfrwng yr Iaith
Gymraeg. Bydd angen i unrhyw aelod di-Gymraeg o'r cyhoedd sy'n dymuno annerch y Cyngor gysylltu â'r clerc o flaen llaw.
2.3 Yn y Gymraeg y cedwir pob cofnod o drafodaeth y Cyngor.
8. Os bydd y Cyngor yn cyflogi unrhyw weithiwr, bydd y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol.
Gan mai cynrychiolydd Un Llais sydd wedi awgrymu'r gwelliannau cynigiodd GW y dylid ymgorffori'r newidiadau a gytunwyd arnynt yn y cyfarfod. Yna dylid cyflwyno'r polisi diwygiedig i'w ystyried/ gymeradwyo yng nghyfarfod y 10fed o Ebrill. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu*.

10. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw**

10.1 **Cyflwr y ffordd o tua Awelfryn draw i gyfeiriad Nefyn-** Nododd GJ fod Adran Priffyrdd y Cyngor Sir wedi dweud fod gwaith atgyweirio wedi'i amserlenu ar gyfer 2018/19.

10.2 **Biniau Halen –** Nododd y Clerc fod cais i law i osod bin graean/halen ger y blwch ffôn ym Mhistyll. *Y Clerc i ddarganfod faint a ffyddai hyn yn gostio ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.* Hefyd nododd fod cais i law i osod bin graean/halen ger Resdai Mount Pleasant yn Llithfaen. *Y Clerc i ofyn wrth LJ gael gair gyda'r ymholydd i ddarganfod ymhle yn union y maent eisiau defnyddio'r graean.*

11. **Gohebiaeth**

11.1 **Notis gan y Clerc -** Cyflwynodd y Clerc lythyr yn rhoi chwe mis o notis o'i ymddiswyddiad o gyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Mawrth, 2018. Os y byddai'r Cyngor yn penodi Clerc cyn i'r cyfnod o notis ddod i ben byddai yn fodlon cwtogi'r cyfnod o notis i gydfynd ac amseriad yr apwyntiad. Penderfynwyd hysbysebu am olynydd yn Llanw Llŷn a'r Ffynnon. *Y Clerc i weithredu.*

11.2 **Gor Yrru – Cyngor Cymuned Boduan -** Esboniodd y Clerc fod Cyngor Cymuned Buan wedi gyrru llythyr yn nodi eu bod yn ceisio cael lleihau cyflymder i 40 mya a hefyd cael llinellau gwyn dwbl ar ddarn o'r briffordd ym Moduan ers dros ddeg mlynedd. Darllenwyd llythyr iddynt ei yrru i Uwch Reolwr Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad Cyngor Gwynedd ym mis Tachwedd, 2017. Roeddynt yn gofyn os y byddai Pistyll yn fodlon eu cefnogi. Cynigiodd SW fod y Cyngor yn gyrru llythyr i'r Cyngor Sir yn cefnogi cynnwys y llythyr a yrodd Buan ym mis Tachwedd. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.*

11.3 **Taith tros fywyd -** Nododd y Clerc fod llythyr i law gan sefydliad 'Aren Cymru' yn hysbysu'r Cyngor fod 'Taith dros Fywyd' wedi dychwelyd ar gyfer 2018 ac yn eu gwahodd i drefnu taith gerdded yn lleol. Nodwyd yr wybodaeth.

11.4 **Cadw Cymru'n Daclus -** Nododd y Clerc fod gohebiaeth i law gan 'Cadw Prydain yn Daclus' yn gwahodd y Cyngor i gofrestru'i diddordeb yn y 'Great British Spring Clean' pryd y bydd miloedd a 'Arwyr Sbwriel' ar draws y wlad yn clirio sbwriel. Mae'r gweithgaredd yn parhau hyd at y 25ain o Fawrth. Nodwyd yr wybodaeth.

11.5 **Ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus** Nododd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi gofyn i'r Cyngor gyflwyno eu cais am ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus am 2017/18. Y *Clerc i gadarnhau nad yw'r Cyngor Cymuned yn cymryd rhan yn y Cynllun.*

11.6 **Trafodaeth o gylch bwrdd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - Nodwyd fod wedi gwahoddiad wedi'i dderbyn ar gyfer y Clerc.

11.7 **Rhannu copi o raglenni'r Cyngor Cymuned i Ohebydd Democratiaeth Leol –**Nododdd y Clerc fod Gareth Willams, sydd yn Ohebydd Democratiaeth Leol yn gofyn os y byddai modd ei ychwanegu i'r rhestr bostio/e-bostio pan yn anfon allan yr rhaglenni misol. Cynigiodd GW fod y Cyngor yn cydfynd a'r cais. *Y Clerc i weithredu.*

11.8 **Papurau ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad i e-bost -** Roedd pecyn o'r papurau yma ar gael i'r rhai perthnasol eu gweld ar y noson. Ni chafwyd sylwadau am y cynhwysion.

12. **Cyllid**

12.1 **Lwfansau Aelodau -** Oherwydd penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2018/19 nododd y Clerc fod gan gynghorau tref a Chymuned:
a.sydd gyda incwm islaw £30,000 yr awdurdod i sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i bob un o'u haelodau am gostau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac yn y blaen.
b.gydag incwm islaw £30,000 yr awdurdod i wneud taliad blynyddol o £500 yr un i hyd at 5 aelod i

gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os hawlir hwnnw.
c.yr awdurdod i ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i faer/cadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500 i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain.
Cynigiodd GW fod y Cyngor yn derbyn bod ganddynt yr awdurdod ac yn ystyried beth i'w wneud ag o yn eu cyfarfod nesaf. Eiliodd SW a chytunodd pawb. Y *Clerc i gynnwys yr eitem ar raglen y cyfarfod nesaf.*

12.2 **Gwiriad gwariant 2017/18** - Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc, gyfriflen proffid a cholled a rhagamcanion 2017/18.

12.3 **Ceisiadau am roddion -** Penderfynwyd cyfranu at yr achosion lleol canlynol yn unig:
Canolfan Gymdeithasol Llithfaen: £800
Adran Aelwyd Gwrtheyrn: £300.00
Pwyllgor Gwyl Ifan: £100.00
Pwyllgor Cae Chwarae: £400.00 – yn amodol ar dderbyn cyfrifon diweddar.
Y *Clerc i weithredu.*

12.4 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf**
£600.00 Canolfan Cymdeithasol Llithfaen
£160.00 Eurwyn Griffith (Cyflog)
£144.00 D E Williams
Balans yn y Banc: Cyfredol £4496.22 Cadw £2144.38

12.5 **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**
E Griffith (Cyflog Clerc) £160.00
Un-Llais Cymru £88.00
Canolfan Cymdeithasol Llithfaen £800.00
Pwyllgor Uwch Adran ac Aelwyd Gwrtheyrn £300.00
Pwyllgor Gwyl Ifan £100.00

Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 10fed o Ebrill, 2018 am 7:30 y.h.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347